Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Felinfach
# Felinfach
# Llanbedr Pont Steffan
# Ceredigion
# SA48 8AE

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2015

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 15/12/2015**

## Cyd-destun

Mae ysgol Gynradd Felinfach wedi ei lleoli ym mhentref Felinfach ac fe'i cynhelir gan awdurdod lleol Ceredigion. Mae'n gwasanaethu'r pentref a'r ardal wledig gyfagos. Darpara addysg ar gyfer disgyblion rhwng 4 ac 11 mlwydd oed.

Mae 61 o ddisgyblion ar y gofrestr ac maent wedi eu rhannu'n dri dosbarth. Mae tua 3% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Daw tua 77% o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn brif iaith. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir ethnig lleiafrifol. Mae'r ysgol wedi adnabod bod tua 10% o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mawrth 2010. Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd ers Mehefin 2004.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Felinfach yn 2015-2016 yw £3,792. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Ngheredigion yw £7,464 a'r lleiafswm yw £3,069. Mae Ysgol Felinfach yn y 26ain safle o'r 47 ysgol gynradd yng Ngheredigion o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- Bod rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da
- Bod rhan fwyaf y disgyblion yn cyrraedd safon uchel o ddwyieithrwydd erbyn cyfnod allweddol 2
- Bod bron pob disgybl yn dangos balchder yn eu gwaith ysgrifenedig ac yn cyflwyno gwaith yn daclus
- Bod safonau ymddygiad bron pob disgybl yn dda mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol
- Bod ansawdd yr addysgu yn dda
- Ei bod yn gymuned ofalgar a chefnogol i ddisgyblion

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- Bod gan y pennaeth weledigaeth glir a disgwyliadau uchel
- Bod staff yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol ac yn cyfrannu'n dda at ei nodau ac amcanion cytûn
- Ei bod yn ymateb yn gadarnhaol i nifer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol
- Bod trefniadau hunanarfarnu yn effeithiol ac yn ei galluogi i werthuso ei pherfformiad yn llwyddiannus
- Bod nifer o bartneriaethau buddiol yn bodoli sy'n cyfrannu'n effeithiol tuag at wella ansawdd y ddarpariaeth a chyflawniad disgyblion

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod disgyblion mwy abl yn cyflawni i'w potensial

A2 Darparu tasgau mwy heriol yn gyson ar gyfer y disgyblion mwy abl

A3 Datblygu rôl y corff llywodraethol ymhellach fel cyfeillion beirniadol, yn arbennig yn y broses hunanarfarnu

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

| Prif ganfyddiadau |
|---|

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae asesiadau'r disgyblion ar fynediad i'r ysgol yn dangos bod gan y rhan fwyaf fedrau sy'n briodol i'w hoed. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Maent yn canolbwyntio'n dda ac yn dwyn i gof eu dysgu blaenorol. Mae'r rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio eu medrau'n hyderus iawn ar draws yr ysgol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau cyfathrebu, yn arbennig yn y Gymraeg. Maent yn gwrando'n astud yn y gwersi ac yn awyddus iawn i gynnig atebion ac i gyfrannu i drafodaethau dosbarth. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn medru cyfathrebu mewn modd aeddfed iawn yn y Gymraeg ac yn cyrraedd safon uchel o ddwyieithrwydd.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n effeithiol yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn darllen eu llyfrau yn gywir ac yn hyderus ac maent yn defnyddio strategaethau addas wrth ddarllen darnau a geiriau anghyfarwydd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn ystyrlon yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae llawer yn darllen ar goedd yn y Gymraeg a'r Saesneg gyda mynegiant clir. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn cywain gwybodaeth i wahanol ddibenion yn effeithiol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn dda. Maent yn defnyddio geirfa dda ac yn dechrau amrywio brawddegau yn llwyddiannus. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae gwaith y rhan fwyaf yn dangos safonau da o ran cywirdeb iaith yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae bron pob disgybl yn dangos balchder yn eu gwaith ysgrifenedig. Maent yn atalnodi'n gywir ac yn cyflwyno eu gwaith yn glir a chyda llawysgrifen daclus. Mae eu gwaith ysgrifennu ar draws y cwricwlwm i'r un safon a'r gwaith yn eu llyfrau iaith.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gallu ymdrin ag ystod eang o weithgareddau rhif yn llwyddiannus. Erbyn diwedd y cyfnod, maent yn datrys problemau syml a gwaith pen yn effeithiol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn casglu data'n effeithiol gan drosglwyddo'r wybodaeth i ffurf graff yn hyderus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth dda o strategaethau rhifedd. Maent yn medru cymhwyso eu medrau mewn tasgau mesur, siâp, a thrin data yn llwyddiannus iawn. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio amrywiaeth dda o strategaethau i ddatrys problemau. Mae disgyblion yn defnyddio'u medrau rhifedd yn dda ar draws y cwricwlwm.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn eu gwaith. Nid yw disgyblion o allu uwch bob amser yn cyflawni cystal ag y gallent.

Mae'r niferoedd isel o ddisgyblion yn golygu nad yw cymhariaeth perfformiad cyffredinol yr ysgol mewn asesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 â meincnodau cenedlaethol yn ddibynadwy.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn gyson ac wedi bod yn yr 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol yn y tair blynedd ddiwethaf. Mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant uwch (deilliant 6) mewn llythrennedd wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 50% is a rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf mewn datblygiad mathemategol.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) dros y tair blynedd ddiwethaf wedi bod yn gyson yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Ar y lefelau uwch na'r lefel ddisgwyliedig (lefel 5), mae perfformiad yr ysgol wedi amrywio rhwng yr 50% is a'r 25% isaf mewn Saesneg a rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf mewn Cymraeg a mathemateg.

Oherwydd y niferoedd bach o ddisgyblion ym mhob blwyddyn, nid oes modd darganfod patrwm o wahaniaeth nodedig rhwng perfformiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim a'r gweddill na rhwng perfformiad y merched a'r bechgyn yn y Cyfnod Sylfaen nac yng nghyfnod allweddol 2.

**Lles: Da**

Mae gan ddisgyblion agweddau cadarnhaol tuag at fyw, bwyta ac yfed yn iach. Maent yn mwynhau'r gwahanol weithgareddau corfforol, sy'n cyfrannu'n dda tuag at eu lles. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gymorth a chyngor.

Mae ymddygiad bron pob disgybl yn dda ac maent yn dangos lefelau uchel o ddiddordeb a balchder yn eu gwaith. Mae bron pob disgybl yn dangos parch tuag at ei gilydd, staff ac oedolion ac mae hyn yn gryfder yn yr ysgol.

Mae llawer o'r disgyblion yn derbyn cyfrifoldebau yn effeithiol ac maent yn elwa o'r cysylltiadau cadarn sy'n bodoli rhwng yr ysgol ac ymwelwyr a'r gymuned leol. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn weithgar yn gwella tir yr ysgol trwy ddefnyddio pobl yn y gymuned i helpu a datblygu cwt ieir.

Mae'r rhan fwyaf y disgyblion yn cymryd cyfrifoldeb aeddfed am eu gwaith ac yn manteisio ar gyfleoedd i fynegi barn drwy weithgareddau'r cyngor ysgol a'r cyngor eco. Er enghraifft, mae Cynllun Gweithredu'r Cyngor Ysgol yn dangos eu bod yn bwriadu datblygu'r ardal allanol a threfnu diwrnod rygbi drwy gysylltu ag Ysgol Gyfun Aberaeron i ofyn a oes modd i hyfforddwr rygbi ymweld â'r ysgol.

Mae cyfartaledd presenoldeb yr ysgol am y pedair blynedd diwethaf yn weddol gyson yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r profiadau dysgu yn ymateb yn llawn i ofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae'r ystod eang o weithgareddau allgyrsiol ac ymweliadau preswyl yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion ymhellach ac yn cael effaith gadarnhaol ar eu safonau.

Mae'r cynlluniau gwaith yn rhoi sylw da i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae'r staff yn cynllunio'n fwriadus ar gyfer datblygu'r medrau allweddol ym mhob maes dysgu ac yn sicrhau parhad a dilyniant i'r disgyblion. Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau meddwl a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu disgyblion yn llwyddiannus. Fodd bynnag, ar adegau, nid yw'r ddarpariaeth bob amser yn cynnig digon o her i'r disgyblion uwch eu gallu.

Mae'r Gymraeg yn treiddio trwy holl waith yr ysgol ac mae'r athrawon yn cynllunio'n effeithiol i ddatblygu medrau Cymraeg y disgyblion. Caiff y disgyblion ystod eang o gyfleoedd i ddysgu am hanes a diwylliant Cymru. Daw llawer o arbenigwyr, fel arlunwyr a haneswyr, i'r ysgol yn rheolaidd i gynorthwyo'r disgyblion. Mae'r ysgol yn defnyddio'r gymuned leol yn effeithiol i gyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion. Er enghraifft, mae perthynas agos â'r eglwys leol a theatr y pentref.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn dda. Mae cyfleoedd addas i ailgylchu, arbed ynni a dileu gwastraff yn codi ymwybyddiaeth y disgyblion o faterion cynaliadwy yn llwyddiannus. Mae'r disgyblion yn cael llawer iawn o brofiadau i gefnogi plant llai ffodus. Mae hyn yn cyfrannu'n dda tuag at eu dealltwriaeth o sut mae pobl yn byw mewn gwledydd eraill.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol yn dda. Mae gan yr athrawon ddisgwyliadau uchel a gwybodaeth bynciol dda am y testunau a gyflwynir. Maent yn defnyddio dulliau holi treiddgar ac ystod dda o strategaethau dysgu. Mae'r athrawon yn cynllunio'u gwersi'n fanwl ac yn nodi cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae'r athrawon yn modelu iaith glir sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygiad iaith lafar y disgyblion.

Mae'r cymorthyddion yn chwarae rôl lwyddiannus wrth gefnogi'r disgyblion ac mae perthynas waith effeithiol yn bodoli rhwng yr oedolion a'r disgyblion ym mhob dosbarth. Gwna'r athrawon ddefnydd da o fyrddau gwyn rhyngweithiol ac adnoddau dysgu i ennyn dealltwriaeth a diddordeb y disgyblion. Yn yr ychydig o enghreifftiau lle nad yw'r addysgu cystal, nid oes digon o her i'r disgyblion uwch eu gallu.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau asesu effeithiol ac mae'r athrawon yn adnabod y disgyblion yn dda. Mae'r ysgol yn olrhain cynnydd disgyblion yn briodol ac, ar y cyfan, yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol i gynllunio rhaglenni gwaith addas. Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn datblygu'n dda. Mae'r athrawon yn marcio gwaith y disgyblion yn rheolaidd ac yn cynnig sylwadau priodol i'w cyfeirio at y camau nesaf.

Mae'r adroddiadau ar gynnydd y disgyblion i rieni yn fanwl ac yn ddefnyddiol. Maent yn nodi'r hyn sydd angen i'r disgyblion ei wneud i wella'u perfformiad yn y dyfodol ac yn cynnig cyfleoedd i rieni ymateb i'r sylwadau.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chefnogol sy'n hyrwyddo iechyd a lles disgyblion yn effeithiol. Mae ganddi drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach a chaiff disgyblion gyfleoedd effeithiol i ddysgu am bwysigrwydd cadw'n heini mewn gwersi ac mewn gweithgareddau allgyrsiol.

Mae'r ysgol yn darparu'n llwyddiannus ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Mae'r sesiynau cydaddoli yn cefnogi datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn gadarn. Ceir gweithdrefnau effeithiol i hybu ymddygiad cadarnhaol gyda disgyblion yn trin athrawon, disgyblion eraill ac ymwelwyr â pharch.

Gwna'r ysgol ddefnydd da o asiantaethau arbenigol i sicrhau bod disgyblion yn derbyn cymorth a chynhaliaeth addas. Er enghraifft, mae'r nyrs a'r heddlu yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i gyfoethogi gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o wahanol faterion a allai effeithio ar eu lles.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Mae athrawon yn nodi anghenion disgyblion yn gynnar trwy arsylwadau a phrofion ac yn darparu ystod addas o raglenni cymorth iddynt. Mae'r cynlluniau addysg unigol yn cynnwys targedau clir a mesuradwy. Mae system effeithiol ar waith i fonitro ac asesu cynnydd y disgyblion hyn.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan yr ysgol ethos Cymreig, croesawgar, cynhwysol lle mae pob plentyn yn cael ei werthfawrogi'n llawn. Mae'r ysgol yn gymuned hapus gydag awyrgylch teuluol ac mae pob disgybl yn derbyn yr un cyfle i gymryd rhan yn y gweithgareddau addysgol. Cyfranna'r awyrgylch yn effeithiol at lefelau presenoldeb a safonau ymddygiad da yn yr ysgol.

Mae'r adeilad a'r safle yn cynnig amgylchedd dysgu priodol ar gyfer y disgyblion. Mae'n cael ei gadw'n lan a thaclus. Mae'r athrawon yn gwneud y defnydd gorau o'r gofod sydd ar gael.

Mae'r arddangosfeydd lliwgar o lwyddiannau'r disgyblion ar waliau'r dosbarthiadau yn symbylu'r dysgu yn dda. Mae'r ardal allanol wedi cael ei datblygu'n addas i gefnogi profiadau dysgu disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn dda. Mae adnoddau dysgu da ar gyfer anghenion y disgyblion.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir a disgwyliadau uchel. Mae'n rhannu'r rhain yn llwyddiannus gyda staff, rhieni, disgyblion a llywodraethwyr.

Mae gan bob aelod o staff ddisgrifiad swydd manwl sy'n cysylltu'n dda â'u cyfrifoldebau penodol. Mae cyfarfodydd staff yn canolbwyntio'n dda ar ansawdd yr addysgu a sicrhau safonau uchel. O ganlyniad, mae'r staff yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol ac yn cyfrannu'n dda at y nodau ac amcanion cytûn. Ceir gweithdrefnau cyfathrebu effeithiol i roi gwybodaeth gyson i staff am bob agwedd o waith yr ysgol.

Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarnhaol i nifer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae'r defnydd o'r Fframwaith Rhifedd a Llythrennedd ar gyfer mapio'r medrau ar draws y cwricwlwm yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau llythrennedd a rhifedd. Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol i wella lles a safonau'r disgyblion mwy bregus.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn darparu cefnogaeth effeithiol i fywyd a gwaith yr ysgol. Maent yn ymroddedig i ddatblygiad yr ysgol ac yn ymgymryd â'u dyletswyddau'n gydwybodol. Maent yn deall data perfformiad yr ysgol yn briodol ac yn gwybod sut mae'n cymharu â data perfformiad ysgolion tebyg eraill. Er eu bod wedi dechrau defnyddio'r wybodaeth hon i ddwyn yr ysgol i gyfrif yn fwy effeithiol, nid yw'r arfer hon wedi ei gwreiddio'n llawn eto. Nid yw eu rôl yn y broses hunanarfarnu eto wedi datblygu'n llawn.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gweithdrefnau hunanarfarnu'r ysgol yn effeithiol ac yn ei galluogi i werthuso ei pherfformiad yn llwyddiannus. Gwna ddefnydd effeithiol o amrediad o dystiolaeth uniongyrchol fel dadansoddi data perfformiad, arsylwi gwersi a chraffu ar waith disgyblion wrth arfarnu ei heffeithiolrwydd. Mae hyn yn ei galluogi i arfarnu cynnydd ac i adnabod y mannau sydd angen eu gwella yn lled gywir. Mae llais y disgyblion a rhieni yn cael eu cynnwys yn y broses hunanarfarnu yn effeithiol drwy gyfrwng holiaduron.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen gryno ac mae'n rhoi darlun cywir o sefyllfa gyfredol yr ysgol o ran y safonau a'r ddarpariaeth.

Yn dilyn y weithdrefn hunanarfarnu, mae'r ysgol yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir i benderfynu ar flaenoriaethau priodol i'w cynnwys yng nghynllun gwella'r ysgol. Mae cyswllt agos yn bodoli rhwng canfyddiadau'r weithdrefn hunanarfarnu a'r blaenoriaethau yn y cynllun gwella. Mae'r cynllun yn eglur ac yn cynnwys crynodeb o'r data perthnasol, amserlen gweithredu, trefniadau monitro, a chyfrifoldebau staff. Mae'r costau sy'n gysylltiedig â'r camau gweithredu wedi eu nodi'n glir. Fodd bynnag, nid yw'r allbynnau ar gyfer y camau gweithredu yn y cynllun bob amser yn cael eu nodi'n ddigon clir.

Mae’r ysgol wedi llwyddo mynd i’r afael â meysydd i’w gwella a nodwyd yn flaenorol. Er enghraifft, mae wedi cryfhau’r cynllunio i ddatblygu medrau allweddol disgyblion a chysoni’r marcio ar draws yr ysgol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r ysgol wedi sefydlu nifer o bartneriaethau buddiol sy’n cyfrannu’n effeithiol tuag at wella ansawdd y ddarpariaeth a chyflawniad disgyblion.

Ceir partneriaeth werthfawr rhwng yr ysgol a’r rhieni. Mae cymdeithas ffrindiau’r ysgol yn weithgar iawn ac yn codi arian yn rheolaidd. Mae’r arian yn cael ei ddefnyddio’n briodol i brynu adnoddau a chaledwedd cyfrifiadurol sy’n cyfoethogi’r dysgu yn effeithiol.

Mae partneriaeth gadarn yn bodoli gyda’r gymuned leol ac mae gweithgareddau cymunedol yn cyfoethogi’r profiadau dysgu yn effeithiol. Er enghraifft, mae cyfleoedd llwyddiannus i ddisgyblion gymryd rhan yng ngweithgareddau neuadd y pentref ac yng ngwasanaethau’r eglwys leol. Mae’r profiadau hyn yn atgyfnerthu ymdeimlad disgyblion o falchder yn eu hardal leol.

Mae cysylltiad agos yn bodoli gyda’r cylch meithrin sydd ar safle’r ysgol ac mae hyn yn hwyluso trefniadau derbyn disgyblion newydd.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth gref â’r ysgol uwchradd leol. Mae trefniadau pontio llwyddiannus yn sicrhau trosglwyddo esmwyth i ddisgyblion wrth iddynt symud i’r cam nesaf yn eu haddysg.

Cydweithia’r ysgol yn effeithiol gydag ysgolion eraill y clwstwr a’r ysgol uwchradd fel rhan o drefniadau’r awdurdod lleol i safoni a chymedroli gwaith disgyblion. Mae hyn yn sicrhau cywirdeb a chysondeb yn asesiadau’r athrawon.

Mae partneriaethau buddiol yn bodoli gyda nifer o asiantaethau'r awdurdod lleol sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad lles a chyrhaeddiad disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol gyflenwad addas o athrawon a chymorthyddion sydd â chymwysterau priodol i ymdrin â phob agwedd o’r cwricwlwm. Mae aelodau staff yn cydweithio’n llwyddiannus â’i gilydd ac yn cefnogi disgyblion yn gadarn. Mae’r tîm medrus a brwdfrydig o gymorthyddion yn darparu cymorth effeithiol iawn ac yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd da yn eu dysgu a’u lles.

Mae’r ysgol yn ymateb yn llawn i ofynion statudol baich gwaith athrawon. Mae’r athrawon yn defnyddio eu hamser digyswllt yn effeithiol ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu. Mae'r ysgol yn rhoi sylw teilwng i ddatblygiad proffesiynol parhaus y staff ac mae prosesau trwyadl rheoli perfformiad athrawon yn cefnogi hyn yn briodol.

Mae’r ysgol yn rhan o gymunedau proffesiynol defnyddiol sy’n dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau a chyrhaeddiad disgyblion, er enghraifft drwy ddatblygu medrau sillafu Saesneg disgyblion.

Mae amrediad da o adnoddau yn yr ysgol ac maent yn cael eu rheoli'n effeithiol i gyfrannu'n dda at y safonau cadarn mae'r disgyblion yn eu cyflawni.

Gwneir defnydd effeithiol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer gwella safonau a lles grŵp penodol o ddisgyblion.

Mae'r llywodraethwyr a'r pennaeth yn rheoli gwariant yn ofalus, gan sicrhau ei fod yn cysylltu'n dda â blaenoriaethau'r ysgol.  O ystyried hyn, ynghyd â safonau cyflawniad y disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6672289 - YSGOL GYMUNEDOL FELINFACH**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 56 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 7.5 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 8 | 7 | 14 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 62.5 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 1 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 8 | 7 | 14 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 62.5 | 57.1 | 28.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 3 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 8 | 7 | 14 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 62.5 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 12.5 | 57.1 | 21.4 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 8 | 7 | 14 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 50.0 | 85.7 | 57.1 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 3 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6672289 - YSGOL GYMUNEDOL FELINFACH**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 56 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 7.5 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 8 | 5 | * | 7 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 100.0 | 100.0 | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | * | 1 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 8 | 5 | * | 7 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | * | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 25.0 | 60.0 | * | 42.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | * | 3 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 8 | 5 | * | 7 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | * | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 25.0 | 80.0 | * | 57.1 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | * | 1 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 8 | 5 | * | 7 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | * | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 25.0 | 60.0 | * | 42.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | * | 3 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 8 | 5 | * | 7 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | * | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 0.0 | 80.0 | * | 42.9 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | * | 3 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 33 | 33<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 33 | 28<br>85%<br>92% | 5<br>15%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 33 | 32<br>97%<br>97% | 1<br>3%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 33 | 33<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 33 | 33<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 33 | 32<br>97%<br>96% | 1<br>3%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 33 | 33<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 33 | 32<br>97%<br>98% | 1<br>3%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 33 | 32<br>97%<br>91% | 1<br>3%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 33 | 32<br>97%<br>95% | 1<br>3%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 33 | 24<br>73%<br>77% | 9<br>27%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 33 | 13<br>39%<br>84% | 20<br>61%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

# Ymateb i’r holiadur i rieni

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 13 | 3<br>23% | 3<br>23% | 5<br>38% | 2<br>15% | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 64% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 13 | 4<br>31% | 7<br>54% | 2<br>15% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 13 | 4<br>31% | 8<br>62% | 0<br>0% | 1<br>8% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 11 | 3<br>27% | 4<br>36% | 3<br>27% | 1<br>9% | 2 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 10 | 4<br>40% | 3<br>30% | 1<br>10% | 2<br>20% | 3 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 11 | 3<br>27% | 3<br>27% | 4<br>36% | 1<br>9% | 2 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 62% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 12 | 4<br>33% | 7<br>58% | 1<br>8% | 0<br>0% | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 65% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 11 | 3<br>27% | 2<br>18% | 2<br>18% | 4<br>36% | 2 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 11 | 4<br>36% | 2<br>18% | 3<br>27% | 2<br>18% | 2 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 61% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 12 | 4<br>33% | 7<br>58% | 1<br>8% | 0<br>0% | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 61% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 13 | 5<br>38% | 7<br>54% | 1<br>8% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 67% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 9 | 4<br>44% | 4<br>44% | 1<br>11% | 0<br>0% | 4 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 13 | 3<br>23% | 3<br>23% | 6<br>46% | 1<br>8% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 50% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 13 | 3<br>23% | 3<br>23% | 5<br>38% | 2<br>15% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 63% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 12 | 4<br>33% | 6<br>50% | 1<br>8% | 1<br>8% | 1 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 13 | 4<br>31% | 5<br>38% | 4<br>31% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 10 | 3<br>30% | 1<br>10% | 4<br>40% | 2<br>20% | 2 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 11 | 4<br>36% | 4<br>36% | 3<br>27% | 0<br>0% | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 55% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 11 | 3<br>27% | 3<br>27% | 4<br>36% | 1<br>9% | 2 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| David Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Rosemarie Wallace | Arolygydd Tîm |
| Gwen Aubrey | Arolygydd Lleyg |
| Robert Williams | Arolygydd Cymheiriaid |
| Non McEvoy | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.